## COFNODION

| | | |
|---|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher, 1 Mai 2002 | |
| **Amser:** | 9.00am i 12.25pm | |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 3, Cynulliad Cenedlaethol Cymru | |
| **Presennol:** | **Aelodau'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol** | |
| | Kirsty Williams **(Cadeirydd)** | Brycheiniog a Maesyfed |
| | Geraint Davies | Rhondda |
| | Jocelyn Davies | Dwyrain De Cymru |
| | Brian Gibbons | Aberafan |
| | Jane Hutt **(Gweinidog)** | Bro Morgannwg |
| | Ann Jones | Dyffryn Clwyd |
| | Dai Lloyd | Gorllewin De Cymru |
| | David Melding | Canol De Cymru |
| | **Aelodau o’r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai** | |
| | Janet Ryder | Gogledd Cymru |
| | Gwenda Thomas (Cadeirydd) | Castell-nedd |
| | **Swyddogion yn Bresennol** | |
| | Steve Milsom | Is-adran Polisi Gofal Cymdeithasol |
| | Andrew Powell-Chandler | Is-adran Polisi Gofal Cymdeithasol |
| | Mike Shanahan | Is-adran Polisi Gofal Cymdeithasol |
| | Helen Thomas | Adran Polisi Cymdeithasol |
| | Bob Woodward | Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru |
| | **Ysgrifenyddiaeth:** | |
| | Jane Westlake | Clerc y Pwyllgor |
| | Claire Morris | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

### Eitem 1: Ymddiheuriadau ac Amnewidiadau

1.1 Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Lynne Neagle a Rod Richards.

1.2 Atgoffwyd yr aelodau o’r gofyniad, o dan Reol Sefydlog 4.5, i ddatgan unrhyw fuddiant cyn cymryd rhan yn y trafodaethau. Gwnaed y datganiadau canlynol:

- Geraint Davies, fferyllydd ac aelod o Gyngor Bwrdeisdref Sirol Rhondda Cynon Taf
- Dai Lloyd, meddyg teulu, aelod o Gyngor Dinas a Sir Abertawe, Is-Gadeirydd Crossroads yn Abertawe a Chadeirydd Anrhydeddus Cymdeithas Alzheimer yn Abertawe.
- David Melding, cadeirydd y Grwp Trawsbleidiol ar gyfer Pobl Hyn.

**Eitem 2: Strategaeth ar gyfer pobl hyn yng Nghymru**
**Papur: HSS-10-02(p.1)**

2.1 Cyflwynodd y Gweinidog adroddiad y Grwp Ymgynghorol ar y Strategaeth ar gyfer Pobl Hyn yng Nghymru. Byddai'r strategaeth yn darparu fframwaith i gyrff statudol yng Nghymru i gynllunio ar gyfer cymdeithas sy'n heneiddio. Byddai'n cwmpasu ymrwymiadau'r Cynulliad i bobl hyn sydd angen gofal iechyd a gofal cymdeithasol hir dymor, ond yn bwysicach na hynny byddai'n ystyried effaith pob agwedd arall ar bolisi y mae'r Cynulliad yn gyfrifol amdano ar bobl hyn. Bu'r grwp yn gweithio ar yr adroddiad ers mis Mehefin ac roedd dros 1000 o bobl, y rhan fwyaf ohonynt yn bobl hyn, wedi cyfrannu i raglen ymgynghori helaeth.

2.2 Trafodir yr adroddiad yn y Cyfarfod Llawn ar 16 Mai. Byddai ymarfer ymgynghori cyhoeddus yn dilyn tan ddechrau Awst a byddai Strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Cynllun Gweithredu yn cael eu cynhyrchu erbyn diwedd Tachwedd.

2.3 Canmolodd Brian Gibbons, y Dirprwy Weinidog, a gadeiriodd y Grwp Ymgynghorol, y gwaith a wnaed hyd yn hyn. Roedd aelodaeth y grwp wedi bod yn eang ei gwmpas a chredwyd bod yr adroddiad yn adlewyrchu materion a blaenoriaethau pobl hyn yng Nghymru.

2.4 Mewn ymateb i gwestiynau a sylwadau gan Aelodau, gwnaed y pwyntiau canlynol gan y Gweinidog a'r Dirprwy:

- Roedd llawer o argymhellion yr adroddiad yn gorgyffwrdd ac wedi eu cynnwys i ysgogi trafodaeth yn ystod yr ymarfer ymgynghori yn hytrach nag fel cyfarwyddyd i'r ffordd ymlaen.
- Derbyniwyd tystiolaeth bod llawer o bobl hyn am gael mynediad i addysg heb orfod astudio ar gyfer cymwysterau galwedigaethol ond roedd eraill yn pryderu am fynediad i gyrsiau gradd a'r capio o ran oedran ar fenthyciadau i fyfyrwyr.
- Roedd unigrwydd yn fater o bwys ac roedd llawer o rwystrau yn atal pobl hyn rhag mynd allan, yn amrywio o ddiogelwch personol i wasanaethau bysys afreolaidd.
- Roedd tuedd i or-amddiffyn pobl hyn a gwadu'r rhyddid iddynt wneud eu dewisiadau eu hunain, yn cynnwys mentro weithiau os oedd hynny'n angenrheidiol.
- Er bod rhoi'r cyfle i bobl hyn gymysgu gyda grwpiau oedran eraill yn bwysig, teimlai llawer eu bod yn cael eu bygwth gan ymdddygiad rhai pobl ifanc.
- Cydnebydd yr adroddiad sefyllfa ddiamddiffyn pobl hyn yn dilyn profedigaeth galar a'r angen iddynt gael cefnogaeth.
- Byddai atal cwympiadau yn faes a fyddai'n elwa o gael ymagwedd strategol. Roedd pobl hyn mewn mwy o berygl o ganlyniad cwympo.
- Nid mater meddygol yn unig oedd ymateb i strôc ond roedd angen ymagwedd system gyfan – mynychu uned strôc, asesiad a chefnogaeth bosibl cydlynydd gofal.
- Roedd prosiect peilot ar waith i gasglu data ar y nifer o asesiadau gofalwyr sy'n cael eu gwneud. Dylai'r dasg o gasglu data ddechrau o fewn y ddau neu dri mis nesaf.
- Roedd disgwyliad cryf ar ymddiriedolaethau i gyrraedd yr isafswm targed ar gyfer llawfeddygaeth orthopedig er mwyn sicrhau na fyddai neb yn aros mwy na 18 mis. Cyflawnwyd gwelliannau ac mewn rhai ardaloedd roedd y targed yn cael ei gyflawni.
- Roedd tystiolaeth y byddai mynediad i sgrinio mewn lleoliadau cymunedol i'w croesawi ond roedd angen i hyn fod yn gytbwys gyda'r angen am sicrwydd ansawdd gyda'r offer yn cael ei wirio a'i galibro'n rheolaidd.
- Talodd y grwp sylw i fater anymataledd a mynediad i doiledau cyhoeddus. Teimlid y gallai siopau a thai bwyta wneud eu cyfleusterau yn fwy hygyrch i'r cyhoedd. Teimlid hefyd bod angen i awdurdodau lleol roi mwy o sylw i ddarparu toiledau cyhoeddus a'u hansawdd.
- Byddai papur i'w nodi yn cael ei ddarparu ar ymestyn sgrinio'r fron a'r trefniadau technegol gwell. Byddai hefyd yn ymdrin â mynediad i'r anabl i unedau sgrinio symudol.

<u>Gofal Personol am Ddim</u>

2.5 Dywedodd y Gweinidog ei bod wedi gofyn i'r Grwp Ymgynghorol edrych ar ofal personol am ddim fel rhan o'i waith ar y Strategaeth. Ymhlith y materion a godwyd yn sgîl eu dadansoddiad roedd:

- Byddai rhoi argymhellion y Comisiwn Brenhinol ar waith y parhau i fynnu bod pawb sy'n mynd i ofal preswyl yn cael prawf modd;
- Byddai angen i ofal personol am ddim ymestyn i ofal yn y cartref ynghyd â'r sector breswyl er mwyn peidio â chreu cymhellion gwrthnysig i bobl fynd i ofal preswyl pan na fyddai angen iddynt wneud hynny.
- Y rhagdybiaeth ganolog oedd bod y polisi yn mynd i gostio £67.5 miliwn ar unwaith, gan godi i £130m erbyn 2021, ar sail prisiau cyson.

- Byddai cost y polisi ar ben y costau gofal ychwanegol, a fyddai'n deillio o newidiadau demograffig, a chodiadau costau gofal uwchlaw chwyddiant, yn cael ei leihau'n rhannol drwy welliant mewn iechyd. Amcangyfrifwyd y byddai'r costau yn codi o £323m i £565m (net) erbyn 2021 ar brisiau cyson (72 y cant).

2.6 Mae'r Cynulliad yn cyfrannu £100 yr wythnos tuag at gostau nyrsio rhai sy'n ariannu'u hunain mewn cartrefi nyrsio. Mae'r newidiadau diweddar gan y Cynulliad i'r terfynau cyfalaf, yr anwybyddiad 12 wythnos a'r 6 wythnos o ofal cartref am ddim yn dilyn rhyddhau o ysbyty wedi gwella'r lefelau cynnal yn sylweddol. Bydd y Gweinidog hefyd yn edrych ar derfynau cyfalaf mwy hael ar gyfer y dyfodol. Yng Nghymru roedd mwy o berchnogion cartrefi oedrannus mewn cartrefi o werth isel ac ar incwm isel, felly roedd hi'n debygol y byddai niferoedd uwch o bobl yn gwerthu eu cartrefi i fynd i mewn i ofal preswyl nag mewn rhannau eraill o'r DU.

2.7 Yn ychwanegol at hyn, byddai'r rhan fwyaf o'r rhai sy'n ariannu eu hunain mewn gofal preswyl â hawl i elfen uwch y Lwfans Gweini o £55.30 yr wythnos a gallai fod hawl ganddynt i fudd-daliadau eraill. O dan ofal personol am ddim, ni fyddai Lwfans Gweini yn cael ei dalu gan yr Adran Gwaith a Phensiynau i'r rhai mewn gofal preswyl. Canlyniad hynny fyddai arbediad i Lywodraeth y DU ar gost o tua £14m i gyllideb y Cynulliad. Byddai hefyd yn gofyn am ddeddfwriaeth sylfaenol i roi gofal personol am ddim yng Nghymru ar waith.

2.8 Cafodd y Grwp Ymgynghorol y ddadl 'cydraddoldeb deiagnostig' yn un apelgar, ond roedd ei gefnogaeth i'r cysyniad o ofal personol am ddim yng nghyd-destun argymhellion y Comisiwn Brenhinol – y dylai'r costau ychwanegol ddod o drethi cyffredinol. Roeddent am weld darpariaeth benodol ar gyfer hyn ar lefel y DU a fyddai'n dod drwy drefniadau Barnett – gyda unrhyw addasiadau angenrheidiol yn y gyfundrefn budd-daliadau. Nid oeddent wedi cefnogi'r syniad y dylai'r Cynulliad ariannu hyn o'i gylllidebau ar draul unrhyw rhaglenni eraill.

2.9 Mewn ymateb i sylwadau'r Gweinidog, gwnaeth yr Aelodau y pwyntiau canlynol:

- Dal yn aneglur o hyd y mae'r gwahaniaeth rhwng gofal personol a gofal nyrsio. Roedd pobl yn talu am ofal personol oedd yn ganlyniad clefydau yr oeddent yn cael gofal amdanynt yn y cartref, pan oedd y gofal yn cael ei roi am ddim i bobl â chlefydau eraill mewn ysbytai gan ei fod wedi'i ddyfarnu ei fod yn ofal nyrsio.
- O gofio'r lefel gyfredol o danwariant ar gyllideb diwedd blwyddyn y GIG, nid oedd yr adnoddau ar gyfer gofal personol am ddim yn ymddangos yn gwbl afrealistig, fodd bynnag, roedd angen pwyllo o gofio'r ansicrwydd ynghylch effaith y cynnydd yn y galw a'r newid o ofal anffurfiol i ofal â thâl ar gostau.
- Dylai'r Cynulliad ddefnyddio'i bwerau i liniaru pwysau talu am ofal yn y cartref ar bobl.
- Os nad oedd hi'n bosibl newid Mesur GIG (Cymru) i gynnwys gofal personol rhad ac am ddim yna dylid rhoi cynnig i'r rhaglen ddeddfwriaethol Seneddol am Fesur Gofal Personol Cymru.

2.10 Gwnaeth y Gweinidog y pwyntiau canlynol:

- Trafododd y Grwp Ymgynghorol fater gofal personol am ddim yn drwyadl mewn perthynas â'r holl flaenoriaethau eraill a restrir yn ei adroddiad, ac ni welwyd mai hon oedd y brif flaenoriaeth.
- Byddai cyfle am drafodaeth cyfarfod llawn ar y mater hwn ar 16 Mai yng nghyd-destun adroddiad ac argymhellion y Grwp Ymgynghorol
- Roedd hi'n bwysig bod y Pwyllgor yn cytuno ar bolisi cyn dechrau meddwl am ddeddfwriaeth.
- Byddai ymateb llawn i argymhellion yr adroddiad yn cael ei roi.

<u>Gweithredu</u>

- Byddai papur i'w nodi yn cael ei ddarparu ar ehangu sgrinio'r fron, trefniadau technegol gwell a mynediad i'r anabl i unedau sgrinio symudol.

**Eitem 3: Arweiniad i Awdurdodau Lleol ar Godi Tâl am Ofal yn y Cartref:**
**Papur HSS-10-02(p.2)**

3.1 Ymunodd aelodau o'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai â'r Pwyllgor ar gyfer yr eitem hon. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Peter Black, Tom Middlehurst, Peter Law a William Graham

3.2 Cytunwyd y byddai'r Cadeirydd yn ysgrifennu at y Gweinidog yn rhoi'r pwyntiau allweddol a godwyd gan yr aelodau er mwyn iddi allu ymateb yn llawn a bod y Pwyllgor yn ystyried ei hymateb cyn toriad yr haf.

3.3 Atodir copi o lythyr y Cadeirydd.

**Eitem 4: Cofnodion 17 Ebrill 2002**

**Papur: HSS-08-02(min)**

4.1 Cytunwyd ar gofnodion cyfarfod 17 Ebrill.

**Eitem 5: Papurau i'w Nodi**

**Mynediad i Addysg Feddygol**
**Papur: HSS-10-02(p.3)**

5.1 Byddai manylion yr ysgolion a fynychir gan y 75 disgybl a gofrestrodd ar y Cynllun Compact yn cael eu rhoi.

**Swyddi Ymgynghorol Newydd yng Nghymru**
**Papur: HSS-10-02(p.4)**

5.2 Byddai papur diwygiedig yn cael ei ddosbarthu a fyddai'n cynnwys y ffigurau ar gyfer Conwy a Sir Ddinbych a Phontypridd a'r Rhondda.

**Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor o dan Reol Sefydlog 9.9 ar gyfer 2001-2002**
**Papur: HSS-10-02(p.5)**

5.3 Cymeradwywyd yr adroddiad blynyddol drafft

**Atodiad A**

Jane Hutt AC 7 Mai 2002
Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**ARWEINIAD STATUDOL I AWDURDODAU LLEOL AR GODI TÂL AM OFAL YN Y CARTREF**

Fel y cytunwyd yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 1 Mai, ysgrifennaf atoch i gadarnhau'r pwyntiau allweddol a godwyd gan aelodau'r Pwyllgor ac aelodau'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai wrth drafod yr arweiniad drafft.

**Adran 2**

Cytunwyd y dylai'r gair 'anghenraid' gael ei roi yn lle'r gair 'rhagdybiaeth' yn llinell gyntaf paragraff 2.4.

**Adran 6**

Pan fydd pobl yn mynd i lety breswyl Rhan III caiff eu pensiwn ymddeol ei ostwng dros gyfnod o amser i leiafswm o 25%. Dylid rhoi ystyriaeth i weithredu camau graddol tebyg wrth ystyried pensiwn ymddeol wrth asesu'r cyfraniad at gost gwasanaethau gofal yn y cartref.

**Adran 7**

Mynegodd yr aelodau y farn fod budd-daliadau sy'n gysylltiedig ag anabledd yn cael eu dyfarnu'n benodol i gynorthwyo pobl i gwrdd â'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â'u hanabledd ac ni ddylid ei ystyried fel incwm. Gofynnodd y Pwyllgor am wybodaeth bellach ar gost rhoi anwybyddiad llwyr neu rannol ar y budd-daliadau hyn.

**Adran 8**

Cafwyd safbwyntiau gwahanol ar a ddylai cyngor ar fudd-daliadau fod yn annibynnol ar, neu'n gysylltiedig ag asesiad, ond dangoswyd gennych ei bod yn bwysig i gyngor gan awdurdodau lleol fod yn broffesiynol ac y dylai pobl gael mynediad at gyngor annibynnol os y dymunent hynny.

Nodwyd fod amwysedd yn nrafftio trydedd brawddeg paragraff 8.1. Dylai ‘fel arfer’ ond cyfeirio at asesiad yng nghartref y defnyddiwr ac nid i ‘staff a hyfforddwyd yn briodol’.

**Adran 9**

Mae’r incwm tariff i’w gael o arbedion gryn dipyn yn uwch na’r incwm o arbedion y gellid ei ennill o dan y cyfraddau llog presennol a byddai’n rhaid i bobl dynnu o’u cyfalaf i gwrdd â’r taliadau. Awgrymwyd y byddai yn llawer tecach defnyddio’r isafswm cyfradd fenthyca Banc Lloegr. Awgrymwyd hefyd y dylid anwybyddu unrhyw gymilon o dan £100,000.

Cadarnhaodd y swyddogion y byddai’r adolygiad ar y terfynau cyfalaf ar gyfer y prawf ar adnoddau r gyfer gofal preswyl yn mynd i’r afael ag incwm tariff ac y byddai’r cyfeiriad yn yr arweiniad at y Canllawiau Codi Tâl am Lety Preswyl yn golygu fod yr un newidiadau yn berthnasol i ofal yn y cartref.

**Adran 10**

Dywedodd y swyddogion mai bwriad yr arweiniad oedd mai dim ond incwm a chynilion y defnyddiwr ddylai gael eu hystyried ar wahân i sefyllfa lle y byddai asesiad cartref o fantais i’r defnyddiwr.

Codwyd pwynt ynglyn â’r ffordd y byddai incwm rhieni yn cael ei ystyried wrth asesu grantiau cyfleusterau anabledd i blant. Roedd angen cysondeb rhwng y cynlluniau a weithredir gan y gwahanol awdurdodau lleol. Er bod hyn y tu allan i gwmpas yr arweiniad sydd o dan ystyriaeth byddwn yn ddiolchgar pe bai gwybodaeth yn cael ei darparu i’r Pwyllgor yng nghyd-destun ein hadolygiad o wasanaethau i blant ag anghenion iechyd arbennig.

**Adran 11**

Er bod yr anwybyddiad ar enillion yn rhywbeth i’w groesawu, roedd pryder bod enillion yn cael eu trin yn fwy ffafriol na ffynonellau incwm eraill.

**Adran 13**

Nodwyd hwyrach nad yw’r taliadau a dadogir ac a osodir ar unigolyn yn cyfateb i gost wirioneddol darparu’r gwasanaeth i’r unigolyn hwnnw. Mae’r arweiniad yn ymddangos fel petai’n rhoi rhwydd hynt i awdurdodau lleol i adennill gwariant nad yw’n berthynol.

Cyfeiria paragraffau 13.1 a 13.2 at y gofyniad i’r taliadau a osodir fod yn rhesymol ac i beidio â bod yn uwch na chostau’r gwasanaeth a ddarperir i’r defnyddiwr, ond mae’r Pwyllgor wedi gofyn am eglurhad gan gyfreithwyr ar yr hyn y gellid ei ystyried gan y llysoedd i fod yn ‘rhesymol’ yn yr achos hwn ac a allai’r cymal ‘codi tâl llawn ar rai defnyddwyr’ gael ei ddehongli i olygu unrhyw beth mwy na chost y gwasanaethau penodol a dderbyniant i’r defnyddwyr.

**Adran 14**

Tybiwyd y dylid geirio is-baragraff v yn gryfach wrth fynnu bod cynghorau yn ymgynghori ac i gyfeirio at y manteision i bawb o ymgynghori â grwpiau defnyddwyr.

**Adran 15**

Dylai cost gofal gael ei asesu a’i ystyried. Gyda golwg ar baragraff 15.5 nodwyd nad oes gan bobl sy’n cael Lwfans Gofal Analluedd drwy ddiffiniad, unrhyw ‘enillion’.

**Adran 20**

Teimlai rhai Aelodau y dylid bod gweithdrefn apeliadau annibynnol. Gofynnodd y Pwyllgor am wybodaeth ar ddulliau gweithredu awdurdodau lleol wrth adolygu asesiadau a thrafod cwynion.

Byddwn yn ddiolchgar petaech yn rhoi ymateb i’r Pwyllgor ar y pwyntiau a godwyd, er mwyn i ni allu cael trafodaeth bellach ar y materion hyn cyn toriad yr haf.

Anfonaf gopi o’r llythyr hwn at aelodau’r Pwyllgor ac at aelodau’r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai.

Kirsty Williams
Cadeirydd